

# Crynodeb

# Mynd i'r afael â rhagfarn a gwahaniaethu

Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

Equality and Human Rights Commission

# Cynnwys


- Cyflwyniad .......... 3
- Canfyddiadau allweddol .......... 5
  - Mae cyflymder y newid yn araf ac mae gwerthuso hirdymor yn allweddol .......... 5
  - Nid oes ateb syml 'un ateb sy'n addas i bawb' i fynd i'r afael â rhagfarn a gwahaniaethu .......... 5
  - Rhaid mesur newid ymddygiadol gwirioneddol .......... 6
  - Paratowch ar gyfer canlyniadau annisgwyl .......... 6
  - Mae'n anodd gwerthuso ymyrraeth yn gadarn gyda nifer fach o bobl .......... 7
  - Mae gwerthuso'n gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i ymyriadau .......... 7
  - 'Beth sy'n gweithio'? Gall ymagweddau addysgol newid agweddau ac ymwybyddiaeth ymhlith pobl ifanc .......... 7
  - Mae cyllidwyr a llunwyr polisi'n gyfrifol am godi disgwyliadau ar gyfer gwerthuso .......... 8
- Ein galwad i weithredu ar gyfer polisi ac arfer a arweinir gan dystiolaeth .......... 9
- Isafswm safon o werthuso .......... 11
- Prosiectau gwrth-ragfarn addawol .......... 13
  - Adnodd One Globe Kids gan Globe Smart Kids .......... 13
  - Gweithdy Dangoswch y Cerdyn Coch i Hiliaeth mewn sefyllfaoedd ysgol uwchradd .......... 14
  - Gweithdy hyfforddi Race on the Agenda [Hil ar yr Agenda] .......... 15
  - Menter gyfeillio Kumon Y'all .......... 16
- Cysylltiadau .......... 18

# Cyflwyniad

**Rydym yn ymdrechu i gael Prydain lle gall pawb fyw heb ofn bychanu, aflonyddu, trais neu gamdriniaeth yn seiliedig ar bwy ydynt. Rydym am leihau troseddau casineb, triniaeth annheg, a mathau eraill o ymddygiad anghyfreithlon a ddaw yn sgil rhagfarn pobl.**

Mae gennym raglen waith i ddeall y cysylltiad rhwng rhagfarn ac ymddygiad anghyfreithlon ac i ddarganfod beth sy'n gweithio i leihau gelyniaeth, camdriniaeth a throseddau casineb yn seiliedig ar hunaniaeth ym Mhrydain. Mae sawl elfen i'r her o fynd i'r afael â rhagfarn a gwahaniaethu ym Mhrydain, ac mae'n cynnwys mynd i'r afael ag agweddau unigol a gwerthoedd cymdeithasol, yn ogystal â gwella'r ymateb gan y system gyfiawnder troseddol ac asiantaethau eraill.

Roedd cam cyntaf y rhaglen waith yn **adolygiad systematig o dystiolaeth (Adroddiad ymchwil 101: Rhagfarn ac ymddygiad anghyfreithlon, yn archwilio ysgogiadau ar gyfer newid)** i sefydlu beth a wyddom eisoes ynghylch:

- **Natur rhagfarn ym Mhrydain – y cysylltiad rhwng agweddau mae pobl yn eu dal oherwydd rhagfarn a gweithredoedd penodol o ymddygiad anghyfreithlon, yn benodol gwahaniaethu ac aflonyddwch a thrais yn seiliedig ar hunaniaeth,**
- **Graddau a chyffredinrwydd gwahaniaethu anghyfreithlon ym Mhrydain, a**
- **Beth sy'n gweithio i atal neu ymateb i ymddygiad anghyfreithlon sy'n digwydd oherwydd rhagfarn pobl.**

Mae wedi bod yn syndod i ni a'r ymchwilwyr o Brifysgol Caint a gyflawnodd yr adolygiad, ein bod mewn gwirionedd yn gwybod llawer llai am hyn nag oeddem yn ei ragdybio. Edrychodd yr ymchwilwyr ar 228 o ddarnau o dystiolaeth, gan gynnwys 24 gwerthusiad o ymyriadau, a chanfuwyd nad oedd fawr o dystiolaeth gadarn a oedd yn cysylltu rhagfarn unigolion yn uniongyrchol â gweithredoedd penodol o ymddygiad anghyfreithlon. Golyga hyn er y gallwn dybio bod dolen yn bodoli, nid yw sut mae'r ddolen hon yn ymddangos a sut mae'n gweithio'n glir iawn o hyd.

Nododd yr adroddiad hefyd ychydig o ymyriadau addawol a oedd yn effeithiol wrth atal neu ymateb i ragfarn ac ymddygiad anghyfreithlon ac fe'u gwerthuswyd yn gadarn. Mae'r ymgyrch **Amser i Newid**, er enghraifft, yn herio stigma a gwahaniaethu iechyd meddwl yn llwyddiannus. Mae **menter ysgolion Ymddiriedolaeth Anne Frank** yn effeithiol wrth herio rhagfarn, ac mae'r **rhaglen atal bwlio KiVa** yn arwain at lai o achosion o fwlio mewn ysgolion. Fodd bynnag, yn gyffredinol, roedd diffyg ymyriadau a

gafodd eu gwerthuso a'u dangos eu bod yn gweithio, ac felly ychydig iawn o dystiolaeth gadarn oedd y gallai llunwyr polisi ei defnyddio i atal neu ymateb i droseddau casineb a mathau eraill o ymddygiad anghyfreithlon sy'n deillio o ragfarn pobl.

Canolbwyntiodd ail gam y gwaith ar gryfhau'r dystiolaeth sydd ar gael ar 'beth sy'n gweithio'. Cyflawnwyd hyn trwy ddatblygu **egwyddorion gwerthuso ystyrlon ac i adeiladu galluogrwydd** ymhlith cyrff cyhoeddus a sefydliadau'r trydydd sector sy'n gweithio ar brosiectau i fynd i'r afael â rhagfarn, gwahaniaethu ac aflonyddu a thrais ar sail hunaniaeth er mwyn iddynt allu gwerthuso'u prosiectau a'u hymyriadau mewn ffordd gymesur ond cadarn.

Roeddem hefyd am ledaenu ac ehangu'r **nifer a mathau o ymyriadau addawol** a oedd ar gael fel bod gan lunwyr polisi ystod fwy o dystiolaeth i'w defnyddio. I gyflawni hyn, fe wnaethom ariannu'r gwerthusiad o bedwar prosiect 'addawol' nad oedd wedi'u gwerthuso o'r blaen:

- **Adnodd symudol One Globe Kids (ap a gwefan) gan Globe Smart Kids, wedi'i werthuso mewn partneriaeth â Phrifysgol Caint**
- **Gwaith addysgol Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth mewn ysgolion uwchradd, wedi'i werthuso mewn partneriaeth â Phrifysgol Caint**
- **Menter gymunedol Kumon Y'all, wedi'i werthuso mewn partneriaeth â Cambridge Policy Consultants**
- **Sesiynau hyfforddi Hil ar yr Agenda, a werthuswyd mewn partneriaeth â Phrifysgol Greenwich ac Ymddiriedolaeth Runnymede.**

Fe wnaeth y gwerthusiad cadarn o'r ymyriadau hyn amlygu'r anhawster ynghylch sefydlu '**beth sy'n gweithio**'. Profwyd bod pob ymyriad yn effeithiol i ryw raddau o ran mynd i'r afael â rhagfarn ac ymddygiad anghyfreithlon; fodd bynnag, mae nifer o heriau sylweddol a mewnwelediadau gwerthfawr wedi dod i'r amlwg o bob rhan o'r prosiectau wrth geisio deall 'beth sy'n gweithio' i fynd i'r afael â rhagfarn, gwahaniaethu ac aflonyddu a thrais ar sail hunaniaeth ym Mhrydain:

# Canfyddiadau allweddol

## Mae cyflymder y newid yn araf ac mae gwerthuso hirdymor yn allweddol

Mae angen buddsoddiadau a gwerthusiadau hirdymor i ddarparu darlun cliriach o'r hyn sy'n gweithio, pryd ac ar gyfer pwy.

Roedd yr ymyriadau a werthuswyd drwy'r prosiect hwn i gyd yn cydnabod yr her hon. Pwysleisiodd un gynnydd 'araf ac isel' eu hymagwedd seiliedig ar y gymuned dros nifer o flynyddoedd, gan deimlo nad yw ceisio gorfodi newid cyflym yn effeithiol. Canfu ymyriad arall ei bod yn anodd gwybod pryd y byddai newid yn agweddau person tuag at rywun sy'n wahanol iddo (er enghraifft, unigolyn o hil neu grefydd arall) yn ymestyn i newid agwedd y person hwnnw tuag at y grŵp cymdeithasol yn ei gyfanrwydd . Roedd yr holl ymyriadau'n teimlo, er y gallai'r gwerthusiadau hyn gipio newid tymor byr, bod rhaid mesur effeithiau hirdymor a hefyd annisgwyl yr ymyriadau.

## Nid oes ateb syml 'un ateb sy'n addas i bawb' i fynd i'r afael â rhagfarn a gwahaniaethu

Mae'r cwestiwn o 'beth sy'n gweithio' i fynd i'r afael â rhagfarn a gwahaniaethu ym Mhrydain yn amlweddog a chymhleth, ac mae'n fater na ellir ei ateb gan werthuso un prosiect. Gall pob gwerthusiad cadarn wneud cyfraniad bach a phwysig i ddeall y mater, ond ni fydd llunwyr polisi yn canfod yr ateb mewn datrysiad 'un ateb sy'n addas i bawb'.

Er bod gyrwyr ac achosion cyffredin o ragfarn, gwyddom y gall natur rhagfarn a gwahaniaethu a brofir gan wahanol grwpiau amrywio'n sylweddol. Mae hyn yn golygu y gall natur gynhenid y broblem newid.

Yn y cyfamser, gall y cyd-destun lleol (a newid cymdeithasol, economaidd a demograffig ehangach) gael effaith ar ymyriadau sy'n cael eu cynnal mewn ardaloedd lleol. Mae hyn yn gwneud gwerthuso'r prosiectau hyn a defnyddio'r dystiolaeth leol hon i baratoi darlun o 'beth sy'n gweithio' ar lefel genedlaethol yn her sylweddol i ymyriadau, gwerthuswyr, a'r rhai sy'n ceisio gwneud newid polisi ystyrlon gan ddefnyddio'r dystiolaeth hon.

## Rhaid mesur newid ymddygiadol gwirioneddol

Mae'r prosiect hwn wedi amlygu'r anhawster o gipio effaith ymyriadau ar ganlyniadau ymddygiadol gwirioneddol (yn hytrach nag ymddygiad bwriadol neu gynlluniedig neu fesurau ymddygiad dirprwyol eraill), ac mae diffyg tystiolaeth o beth sy'n gweithio i yrru newid mewn ymddygiad gwirioneddol sy'n gysylltiedig â rhagfarn a gwahaniaethu. Mae hyn yn rhannol oherwydd y gall gweld ymddygiadau gwirioneddol, neu eu cipio fel arall, fod yn anodd a chostus (o ran amser ac arian).

Er y gall mesurau dirprwyol fod yn haws i'w cipio, maent yn cyflwyno eu heriau eu hunain. Gan fod pobl fel arfer yn hoffi cael eu gweld mewn golau ffafriol (a elwir yn dechnegol yn ddymunoldeb cymdeithasol, math o ogwydd ymateb), gall fod yn anodd canfod newid mewn adroddiadau am ymddygiadau bwriadol i weithredu mewn ffordd deg a di-ragfarn (yn arbennig ymysg plant) gan y byddai'n well gan bobl eu sgorio eu hunain yn uchel iawn. Mae hyn yn golygu y gall y mesurau hyn ei gwneud yn anodd asesu newid mewn agweddau dros amser. Er mwyn deall beth sy'n gweithio i leihau ymddygiad rhagfarnllyd a gwahaniaethol (neu hyrwyddo ymddygiad teg), mae angen i werthusiadau ddefnyddio mesurau o ganlyniadau ymddygiadol gwirioneddol.

## Paratowch ar gyfer canlyniadau annisgwyl

Yn aml, gall ymyriadau arwain at ganlyniadau annisgwyl a chanlyniadau anfwriadol, a gall gwybod beth yw'r rhain fod yn hanfodol i ddeall pa effaith mae ymyriad yn ei chael, ble, pryd, ac, yn bwysig, i bwy.

Asesodd un o'r gwerthusiadau ar gyfer y prosiect hwn effaith ymyrraeth addysgol gwrth-hiliaeth ar agweddau pobl ifanc yn yr ysgol uwchradd. Canlyniad annisgwyl oedd nad oedd yr ymyriad yn arwain at newidiadau yn yr ymatebion a fwriadwyd gan bobl ifanc i fod yn dyst i ddigwyddiad hiliol. Dangosodd un o'r mesurau a brofwyd, yn dilyn yr ymyriad, fod pobl ifanc ychydig yn llai tebygol o ddweud y byddent yn ymateb i ddigwyddiad hiliol trwy ddweud wrth ffrind neu aelod o'r teulu, neu athro neu drwy gymryd ochr y dioddefwr. Cododd y canfyddiad hwn rai cwestiynau – efallai fod plant yn fwy dryslyd ar ôl yr ymyriad ynghylch yr hyn a ddisgwylid ganddynt, neu efallai fod disgyblion yn teimlo bod ganddynt fwy o ddewisiadau rhagweithiol i ymateb i ddigwyddiad hiliol, megis addysgu pobl eraill. Gallai deall awgrymiadau fel hyn beri i ymyriad benderfynu newid ei ymagwedd rywfaint, neu gynnal gwerthusiad pellach i ddarganfod rhagor.

Gall amrywiadau mewn ffactorau lleol neu gymdeithasol ddylanwadu ar ganlyniadau ymyriad a gynhelir mewn gwahanol leoedd neu ar wahanol adegau. Dylai'r rhai sy'n cyflawni a defnyddio tystiolaeth o werthusiadau gadw meddwl agored ac ystyried canlyniadau annisgwyl yr ymyriad, os oes angen, i archwilio a mynd i'r afael â'r canlyniadau hyn ymhellach, a bod yn barod i werthuso ac addasu ymyriadau yn barhaus.

## Mae’n anodd gwerthuso ymyrraeth yn gadarn gyda nifer fach o bobl

Ar gyfer ymyriadau sy’n cynnwys dim ond nifer fechan o bobl ar y tro, gall cyflawni gwerthusiad cadarn o effaith fod yn her. Gall un ateb fod yn addas ar gyfer ymyriadau bach neu rai sy’n dod i’r amlwg ac sy’n ddigon tebyg, neu sy’n dilyn canlyniadau tebyg, i ymuno â’i gilydd ar gyfer gwerthusiad grŵp. Gallai hyn helpu i sicrhau bod gwerthusiadau’n cynnwys sampl digon mawr o bobl i allu canfod a dangos effaith.

## Mae gwerthuso’n gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i ymyriadau

Er gwaethaf yr heriau hyn, mae cynnal gwerthusiad cadarn yn helpu ymyriadau i wella eu hymagweddau ac i ddangos a ydynt yn effeithiol wrth fynd i’r afael â rhagfarn a gwahaniaethu – i gyllidwyr, ac yn ehangach i’r rhai sy’n gwneud polisïau a’r rhai hynny a effeithir gan ragfarn a gwahaniaethu fel ei gilydd.

Mae’r gwerthusiadau a gynhaliwyd ar gyfer y prosiect hwn wedi rhoi cyfle i’r ymyriadau oedd yn gysylltiedig brofi a chryfhau eu hymagweddau, yn ogystal â chynllunio ar gyfer gwerthuso yn y dyfodol. Mae’r sefydliadau sy’n arwain yr ymyriadau hyn wedi dweud bod y gwerthusiad wedi eu helpu i ddangos eu bod yn cyflawni eu nodau bwriadol ac wedi’u helpu i ddangos effaith a gwerth eu gwaith – gan gynnwys ar gyfer cyllidwyr presennol neu rai’r dyfodol.

## ‘Beth sy’n gweithio’? Gall ymagweddau addysgol newid agweddau ac ymwybyddiaeth ymhlith pobl ifanc

Canfu un o’r ymyriadau a werthuswyd ar gyfer y prosiect hwn fod gweithdai addysg mewn ysgolion uwchradd sy’n herio hiliaeth wedi arwain at ddealltwriaeth gyffredinol well o hiliaeth ymhlith disgyblion, a lefelau is o ragfarn hiliol a chenedlaethol a fynegir fel pellter cymdeithasol (mesur o ffafriaeth tuag at, neu yn erbyn, grwpiau cymdeithasol gwahanol) (Kingett ac Abrams, 2017).

Canfu ymyriad arall a werthuswyd ar gyfer y prosiect hwn fod adnodd rhyngweithiol a ddefnyddiwyd mewn ystafelloedd dosbarth ysgolion cynradd yn arwain at ddisgyblion yn adrodd am fwy o ddidwylledd diwylliannol a theimlad mwy o debygrwydd â rhith-blant o ddiwylliannau eraill (Cameron a Swift, 2017).

Nid oedd y naill na’r llall o’r gwerthusiadau hyn yn gallu olrhain effaith hirdymor yr ymagweddau hyn trwy’r prosiect hwn.

## Mae cyllidwyr a llunwyr polisi’n gyfrifol am godi disgwyliadau ar gyfer gwerthuso

Mae diddordeb ac archwaeth ymhlith sefydliadau ac ymyriadau i ddeall effaith eu gwaith trwy werthusiad cadarn. Fodd bynnag, mae llawer o rwystrau i werthuso, gan gynnwys adnoddau a chyllid, disgwyliadau sy’n gwrthdaro, tensiynau rhwng y canlyniadau amrywiol mae sefydliadau neu gyllidwyr yn awyddus i’w gweld, a natur dymor byr cynllunio prosiect ac adnoddau.

Mae llawer nad ydym yn ei wybod o hyd o ran pa ddulliau sy’n fwyaf effeithiol wrth fynd i’r afael â rhagfarn a gwahaniaethu ar gyfer gwahanol nodweddion gwarchodedig, ac mae’r pedwar gwerthusiad cychwynnol hyn yn gyfraniad bach yn unig. Mae angen ymagweddau mwy radicalaidd a chynhwysfawr i ddylanwadu’n ystyrlon ar y tirlun tystiolaeth yn y dyfodol.

# Ein galwad i weithredu ar gyfer polisi ac arfer a arweinir gan dystiolaeth

Yn seiliedig ar y profiad hwn, mae gennym bedwar argymhelliad ar gyfer llunwyr polisi sydd ar flaen y gad ym maes mynd i'r afael â rhagfarn a gwahaniaethu:

- **Mae angen i ddeddfwriaeth, polisïau, cynlluniau gweithredu, prosiectau ac ymyriadau sy'n anelu at leihau bychanu, aflonyddu, trais neu gamdriniaeth yn seiliedig ar hunaniaeth pobl gael eu gwerthuso'n gadarn, gan gyflawni o leiaf y safonau lleiaf rydym yn eu cyflwyno yn ein canllaw.**
- **O gofio nad oes unrhyw un ateb sy'n addas i bawb, mae angen i lunwyr polisïau fynd ati i fynd i'r afael â rhagfarn a gwahaniaethu mewn cyd-destunau gwahanol ac ar gyfer gwahanol grwpiau, gan nodi lle ceir cyffredinedd a chyfleoedd i ddefnyddio arfer gorau mewn sefyllfaoedd eraill.**
- **Mae angen i lunwyr polisi fod yn ymwybodol bod ymyriadau'n gallu cael canlyniadau annisgwyl a chanlyniadau anfwriadol ac felly mae angen eu gwerthuso a'u haddasu'n barhaus.**
- **Mae'n debygol y bydd newid yn arafach, felly dylai llunwyr polisi annog buddsoddi a chynllunio tymor hwy er mwyn canfod effaith prosiectau, gan gynnwys gwerthuso gweithgareddau ar ôl i'r ymyriad ei hunan orffen.**

Byddwn ni'n parhau i adeiladu arbenigedd a galluogrwydd o amgylch rhagfarn ac ymddygiad anghyfreithlon gyda'n rhaglen waith ein hunain

- **Byddwn ni'n ceisio ymsefydlu'r safonau lleiaf o werthuso yn ein gwaith ni, ac annog eraill, yn arbennig adrannau'r Llywodraeth, cyrff statudol a sefydliadau'r trydydd sector, i wneud yr un peth.**
- **Byddwn ni'n cysylltu'r dysgu o ddau gyfnod cyntaf y gwaith hwn â gwaith tebyg a wneir gan eraill er mwyn meithrin dealltwriaeth ac osgoi dyblygu. Enghraifft o hyn yw cyllid y Swyddfa Gartref ar gyfer prosiectau cymunedol sy'n atal troseddau casineb fel rhan o gynllun gweithredu trosedd casineb llywodraeth y DU.**
- **Byddwn ni'n annog y defnydd o ganlyniadau ymddygiadol a mesurau llwyddiant ar draws ein rhwydweithiau rhanddeiliaid.**

- **Byddwn ni'n ceisio sefydlu 'barometr cenedlaethol' ar ragfarn a gwahaniaethu, gan ddefnyddio cwestiynau arolwg a fyddai'n caniatáu inni olrhain lefelau rhagfarn a gwahaniaethu a newid agweddau dros amser, a chymharu hyn ledled Cymru, Lloegr a'r Alban a phrofiadau gwahanol nodweddion gwarchodedig.**

# Isafswm safon o werthuso

Un o nodau ein gwaith ynghylch rhagfarn ac ymddygiad anghyfreithlon oedd datblygu safonau isaf o werthuso ac adeiladu galluogrwydd ynghylch sut y gall sefydliadau werthuso eu hymyriadau'n gadarn mewn modd sy'n gymesur a realistig. Dylai gwerthuso gwell o ansawdd gynhyrchu tystiolaeth o ansawdd gwell ar arfer effeithiol, y gallwn ni ac eraill ddibynnu arni i lywio gwaith polisi.

Cyflwynir y canllaw fel set o wyth egwyddor. Mae'r egwyddorion hyn yn cynorthwyo defnyddwyr i gymryd ymagwedd sy'n dod â phrosesau cynllunio ymyrraeth, dylunio gwerthusiad a gweithredu gwerthusiad at ei gilydd.

Dylai cymhwyso'r egwyddorion hyn alluogi defnyddwyr i gyflawni gwerthusiad cyffredinol isafswm neu 'ddigon da' o ymyriadau gwrth-ragfarn, tra'n dal i sicrhau bod y gwerthusiad yn ddigon cadarn a thryloyw i ganiatáu hyder yn y canfyddiadau a'u defnydd wrth gynllunio polisi.

Hefyd mae'r canllaw yn nodi rhesymeg ar gyfer gwerth gwerthuso. Mae hefyd yn ystyried rhwystrau amrywiol y gallai sefydliadau eu hwynebu i werthusiad cadarn, ac yn cyflwyno rhai argymhellion ar gyfer goresgyn y rhain.

Trwy rai sesiynau hyfforddi peilot a oedd yn llywio datblygiad y cyfarwyddyd, rydym eisoes wedi gwella'r galluogrwydd i werthuso ymhlith 60 o gyfranogwyr o Loegr, yr Alban a Chymru.

## Wyth egwyddor ar gyfer gwerthuso prosiectau gwrth-ragfarn

### Cynllun yr ymyrraeth

**Egwyddor 1**
Mae ein penderfyniad i ymyrryd yn seiliedig ar asesiad a manyleb cadarn o’r angen i ymyrryd.

**Egwyddor 2**
Rydym yn glir ynghylch y gwahaniaeth rydym am ei wneud trwy ein hymyrraeth.

**Egwyddor 3**
Mae gennym reswm i gredu y bydd yr ymyriad rydym yn bwriadu ei gyflawni’n cynhyrchu'r gwahaniaeth hwnnw.

### Cynllun y gwerthusiad

**Egwyddor 4**
Rydym yn glir ynghylch natur y data sy'n ofynnol i ddangos ein bod wedi gwneud gwahaniaeth.

**Egwyddor 5**
Rydym yn glir ynghylch y dulliau y byddwn ni’n eu defnyddio i gasglu'r data hwnnw.

### Gweithredu’r gwerthusiad

**Egwyddor 6**
Gwyddom sut y byddwn ni’n dadansoddi'r data a gasglwn i gynhyrchu casgliadau.

**Egwyddor 7**
Gwyddom sut y byddwn ni’n defnyddio ein casgliadau.

**Egwyddor 8**
Rydym wedi asesu ac ymrwymo’r adnoddau sydd eu hangen i gyflawni'r gwerthusiad.

# Prosiectau gwrth-ragfarn addawol

## Adnodd One Globe Kids gan Globe Smart Kids

Mae’r adnodd symudol **One Globe Kids** (ap a gwefan) gan Globe Smart Kids yn anelu at helpu plant i wrthsefyll rhagfarn a stereoteipiau trwy eu galluogi i ‘gyfarfod’ a gwneud ffrindiau gyda phlant o wledydd a diwylliannau eraill, i feithrin hoffter, ymddiriedaeth a chyfeillgarwch ymhlith ei gilydd gyda phlant mewn grwpiau cymdeithasol eraill.

Rhoddodd y gwerthusiad yr adnodd ar brawf gyda phlant chwech ac wyth mlwydd oed mewn pedair ysgol ledled Lloegr a’r Alban, gan fesur ei effaith ar ‘gymhwysedd rhyngddiwylliannol’ – ystod o agweddau, ymddygiadau a sgiliau sydd eu hangen i bobl gymryd rhan yn llwyddiannus mewn rhyngweithiadau bob dydd sy’n croesi ffiniau diwylliannol – trwy gipio mesurau canlyniad meintiol cyn ac ar ôl yr ymyrraeth.

Dangosodd y gwerthusiad fod yr adnodd One Globe Kids wedi cael effaith gadarnhaol ar rai dangosyddion cymhwysedd rhyngddiwylliannol. Nododd plant a gymerodd rhan yn yr ymyrraeth fwy o ddidwylledd diwylliannol a theimladau o debygrwydd ar draws diwylliannau. Awgrymodd cyfweliadau gyda rhai o’r athrawon a’r plant a gymerodd ran yn y gwerthusiad fod y gwahaniaethau rhwng diwylliannau’n ymddangos yn fwy perthnasol i blant na’r hyn sy’n debyg, a gallai canolbwyntio’n fwy ar debygrwydd rhwng diwylliannau gryfhau effaith ymyriadau fel y rhain ymhellach.

Ni wnaeth y gwerthusiad ganfod unrhyw effaith ar raddiadau gwahaniaethau’r plant ysgol na’r ymddygiadau cadarnhaol a fwriadwyd tuag at y plant a gynhwysir yn yr adnodd ap a gwefan (er enghraifft, ceisio gwneud iddynt deimlo’n well pe byddai’r plant hynny’n eu brifo eu hunain). Gallai hyn fod oherwydd bod lefelau adroddedig y mesurau hyn yn uchel ar draws y grŵp rheoli a’r grŵp ymyrryd fel ei gilydd (Cameron a Swift, 2017).

Dywedodd Globe Smart Kids fod y gwerthusiad wedi dangos iddynt y pwysigrwydd o bwysleisio beth sy’n debyg rhwng y plant a gynhwysir yn eu ap a gwefan One Globe Kids a’r rhai sy’n ei ddefnyddio, yn ogystal â gwahaniaethau.




**Ffigur 1**
Darluniad o’r adnodd One Globe Kids

## Gweithdy Dangoswch y Cerdyn Coch i Hiliaeth mewn sefyllfaoedd ysgol uwchradd

Mae **Dangoswch y Cerdyn Coch i Hiliaeth** n sefydliad sy’n defnyddio pêl-droed i helpu mynd i’r afael â hiliaeth mewn cymdeithas. Ei brif gynulleidfa yw plant mewn addysg ysgol gynradd ym Mhrydain, ac mae’n darparu gweithdai addysg wrth-hiliaeth i ysgolion sy’n cynnwys ystod o weithgareddau i gynnwys pob dysgwr mewn trafodaethau diogel a chyfrifol am y mater o hiliaeth. Mae Dangoswch y Cerdyn Coch i Hiliaeth wedi dechrau rhedeg gweithdai gyda phlant mewn ysgolion uwchradd yn ddiweddar. Nod y prosiect yw dileu’r baich cyfrifoldeb sydd ar ddioddefwyr neu dargedau digwyddiadau hiliol i ymateb iddynt. Mae’n ceisio gwneud hyn trwy alluogi pob disgybl i gydnabod hiliaeth ac ymateb mewn ffordd briodol, gan greu cymuned o eiriolwyr. Asesodd y gwerthusiad effaith yr ymyrraeth hon ar gydnabyddiaeth a chanfyddiadau o hiliaeth, a mynegiannau a phrofiadau o ragfarn, mewn dwy ysgol uwchradd yn Lloegr trwy fesur agweddau a bwriadau’n feintiol cyn ac ar ôl y gweithdai.

Canfu’r gwerthusiad, ymhlith disgyblion yn yr ysgolion hyn cyn yr ymyrraeth, fod difrifoldeb hiliaeth yn cael ei ystyried yn debyg i enghreifftiau eraill o ragfarn, megis gwahaniaethu oherwydd problemau ynghylch delwedd y corff. Mae hyn yn awgrymu lefel gymharol isel o ymwybyddiaeth o effaith gwahanol fathau o ragfarn. Arweiniodd yr ymyrraeth at ddealltwriaeth gyffredinol well o hiliaeth ymysg disgyblion, a lefelau gwell o ragfarn hiliol a chenedlaethol a fynegwyd fel pellter cymdeithasol (mesur o ffafriaeth tuag at grwpiau cymdeithasol gwahanol neu yn eu herbyn).

Canfu’r gwerthusiad nad oedd yr ymyrraeth wedi arwain at newidiadau yn yr ymatebion a fwriadwyd gan bobl ifanc oedd yn dyst i ddigwyddiad hiliol. Dangosodd un o’r mesurau a brofwyd, yn dilyn yr ymyrraeth, fod pobl ifanc ychydig yn llai tebygol o ddweud y byddent yn ymateb i ddigwyddiad hiliol trwy ddweud wrth ffrind neu aelod o’r teulu, neu athro neu wrth sefyll i fyny dros y dioddefwr. Cododd y canfyddiad hwn rai cwestiynau – efallai fod plant yn fwy dryslyd ar ôl yr ymyrraeth ynghylch disgwyliadau ohonynt, neu efallai fod y disgyblion wedi teimlo bod ganddynt fwy o ddewisiadau rhagweithiol i ymateb i ddigwyddiad hiliol, megis addysgu pobl eraill. Mae’r canfyddiadau hyn yn awgrymu y dylai ymyriadau fel y rhain roi mwy o bwyslais ar adrodd yn briodol am ddigwyddiadau hiliol fel bod pobl ifanc yn teimlo’n fwy galluog i adrodd am ddigwyddiadau hiliol, boed yn ddioddefwr neu’n dyst (Kingett ac Abrams, 2017).

O ganlyniad i’r prosiect hwn, mae’r cynllun Dangoswch y Cerdyn Coch i Hiliaeth yn bwriadu ehangu cwmpas eu gwaith gwerthuso yn y dyfodol yn dilyn eu profiadau gan ystyried canlyniadau tymor hwy.

## Gweithdy hyfforddi Race on the Agenda [Hil ar yr Agenda]

Mae **Race on the Agenda** yn felin drafod polisi cymdeithasol sy'n canolbwyntio ar faterion sy'n effeithio ar gymunedau lleiafrifoedd ethnig Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig eraill. Un o weithgareddau Race on the Agenda yw cyflwyno gweithdy deuddydd ar Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (PSED). Trwy'r gweithdai hyn, mae Race on the Agenda yn darparu gwybodaeth hygyrch a manwl ynghylch yr hyn mae'n rhaid i bob sefydliad ei wneud i gydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010, tra hefyd yn awgrymu sut y gall sefydliadau ddiwallu'r PSED neu ei ddefnyddio.

Asesodd y gwerthusiad effaith un o'r gweithdai hyn ar yr hyder yr adroddodd y cyfranogwyr amdano o ran eu gwybodaeth am Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a'r PSED, eu gwybodaeth am y mathau o wahaniaethu sy'n anghyfreithlon, y problemau a wynebir gan grwpiau cydraddoldeb a gallu'r sefydliadau i ddefnyddio'r PSED yn effeithiol. Defnyddiodd y gwerthusiad ymagwedd gymysg o arolwg meintiol bach o 28 o bobl a gwblhawyd cyn ac ar ôl un o'r gweithdai, arolwg ar-lein o gyfranogwyr y gorffennol a rhai posibl Race on the Agenda (52 o ymatebwyr), ac wyth cyfweliad â chyfranogwyr.

Roedd canlyniadau'r arolygon a'r cyfweliadau'n awgrymu bod cyfranogiad yn hyfforddiant Race on the Agenda yn gysylltiedig â mwy o hyder yng ngwybodaeth y cyfranogwr am agweddau allweddol Deddf Cydraddoldeb 2010, y PSED, a'r hawliau a'r cyfrifoldebau allweddol sy'n gysylltiedig â'r rhain, yn ogystal â chynyddu hyder yn y mathau o wahaniaethu sy'n anghyfreithlon, y problemau sy'n wynebu grwpiau cydraddoldeb, a gallu sefydliad yr unigolyn i ddefnyddio'r PSED Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus yn effeithiol.

Er bod y gwerthusiad wedi dangos tystiolaeth bod mwy o hyder wedi ei adrodd yn dilyn yr hyfforddiant, oherwydd diffyg amser ar gyfer gwaith dilynol wedyn, nid oedd yn bosibl asesu'r tebygolrwydd y byddai cyfranogwyr yn cymryd camau penodol yn dilyn yr hyfforddiant. (Jolliffe a Haque, 2017). Oherwydd graddfa fechan y gwerthusiad, mae angen i ni fod yn ofalus ynghylch cyffredinoli'r canfyddiadau yn ehangach.

## Menter gyfeillio Kumon Y'all

Mae Kumon Y'all wedi'i leoli yn Dewsbury, Gorllewin Swydd Efrog, ac fe'i sefydlwyd yn 2008 â'r nod o dorri'r rhaniad hiliol a diwylliannol rhwng Mwslimiaid a phobl nad ydynt yn Fwslimiaid yn yr ardal. Ei nod yw mynd i'r afael â chasineb hiliol ac anghyfiawnder cymdeithasol, a lleihau'r posibilrwydd o radicaleiddio, trwy gyswllt rhyng-grŵp cadarnhaol parhaol mewn sefyllfa gymunedol.

Asesodd y gwerthusiad effaith prosiect cyfeillio a fabwysiadwyd gan Kumon Y'all ar arwahanrwydd a rhagfarn ostyngedig rhwng gwahanol grwpiau ffydd a hil, gan amlygu gwerthoedd a rennir ar draws grwpiau, a rhwng pobl hŷn a phobl ifanc rhwng 2013 a 2016. Mae'r prosiect cyfeillio'n un rhan o weithgarwch Kumon Y'all, sy'n cynnwys ystod barhaus ac amrywiol o fentrau cymunedol eraill megis twrnameintiau chwaraeon elusennol a digwyddiadau glanhau. Roedd gwerthusiad y prosiect cyfeillio'n defnyddio ymagwedd ddulliau ansoddol, cymysg yn bennaf, a oedd yn digwydd ar ôl i'r ymyrraeth orffen.

Ymgysylltodd Kumon Y'all â phobl ifanc trwy'r gair llafar i'w hannog i gymryd rhan mewn gweithgareddau cyfeillio megis prosiectau gwirfoddoli cymunedol a chamau gweithredu mewn cymdogaethau â phoblogaeth Gwyn Prydeinig yn bennaf a oedd yn byw mewn dau gyfadeilad preswyl lleol ar gyfer pobl hŷn. Roedd y prosiect yn ymwneud â 200 o bobl ifanc yn gyffredinol, gyda grŵp craidd o ryw 50 o bobl ifanc a gymerodd ran yn rheolaidd mewn 20 o weithgareddau cyfeillio yn 2013-2016.

Awgrymodd arolwg meintiol ar-lein bach o 24 o bobl ifanc a oedd yn cymryd rhan fod newid cadarnhaol wedi digwydd yn nheimladau Mwslimiaid ifanc tuag at bobl o wahanol ffydd a hil, gan gynnwys pobl hŷn. Oherwydd maint bach y sampl, mae angen trin canlyniadau'r arolwg â gofal.

Dangosodd yr arolwg newid negyddol bach iawn mewn teimladau pobl ifanc Mwslimaidd tuag at eu tref gartref a'u cyfoedion a'u cymdogaeth. Awgrymodd dau grŵp ffocws gydag 11 o bobl ifanc a oedd yn cymryd rhan fod y prosiect wedi gwneud y bobl ifanc yn fwy ymwybodol o ragfarnau a oedd yn bodoli yn eu cymuned a'u grŵp cyfoedion. Nododd tri grŵp ffocws gyda 13 o breswylwyr hŷn fod rhai camdybiaethau'n dal i fodoli ymhlith y bobl hŷn hynny a bod rhai ohonynt yn dal i bryderu am ymgysylltu â'r gymuned leiafrifol ethnig. Gwelodd rhai gyfleoedd cyfyngedig yn unig i ryngweithio, wedi'u cyfyngu gan fyw mewn cymdogaethau ar wahân ond hefyd yn ôl iaith a rhai arferion diwylliannol.

Mae canlyniadau'r arolwg a'r grwpiau ffocws yn dangos cynnydd cyffredinol mewn ymwybyddiaeth o'r rhagfarnau a'r camdybiaethau a'r angen i fynd i'r afael â nhw yn y ddwy gymuned. Roedd y preswylwyr hŷn a'r bobl ifanc yn teimlo bod yr ymyrraeth wedi lleihau rhagfarnau, er bod y bobl hŷn wedi codi rhai amheuon ynghylch a fyddai'r newidiadau hyn yn cael eu cynnal yn y tymor hwy (Hirst a Rinne, 2017)

Mae cynlluniau Kumon Y'all yn defnyddio canfyddiadau'r gwerthusiad i ailadrodd y model cyfeillio mewn mannau eraill yn y sir gyda phartneriaid lleol, ac maent wedi rhannu'r adroddiad gwerthuso gyda chyllidwyr fel tystiolaeth o effaith. Oherwydd cyfyngiadau ar adnoddau, nid oes unrhyw gynlluniau ar hyn o bryd i wneud gwerthusiad yn y dyfodol.

# Cysylltiadau

Mae'r cyhoeddiad hwn ac adnoddau cysylltiedig ar gydraddoldeb a hawliau dynol ar gael o Wefan y Comisiwn: **www.equalityhumanrights.com**.

I gael cyngor, gwybodaeth neu gyfarwyddyd ar gydraddoldeb, gwahaniaethu neu faterion hawliau dynol, cysylltwch â'r Gwasanaeth Cynghori a Chymorth Cydraddoldeb, gwasanaeth sy'n annibynnol ac am ddim.

| | |
|---|---|
| Gwefan | **www.equalityadvisoryservice.com** |
| Ffôn | **0808 800 0082** |
| Ffôn testun | **0808 800 0084** |
| Oriau | **09:00 to 19:00 (Dydd Llun i ddydd Gwener)** |
| | **10:00 to 14:00 (Dydd Sadwrn)** |
| Post | F**REEPOST EASS HELPLINE FPN6521** |

Gellir cyfeirio cwestiynau a sylwadau am y cyhoeddiad yma at: **correspondence@equalityhumanrights.com**. Mae'r Comisiwn yn croesawu eich adborth.

# Fformatau amgen

Mae'r cyhoeddiad yma hefyd ar gael ar ffurf ffeil Word hygyrch, fersiwn Hawdd ei Ddarllen a fideo Iaith Arwyddion Prydain o **www.equalityhumanrights.com**. I gael gwybodaeth am fynediad i'r cyhoeddiad yma mewn fformat amgen, cysylltwch â: **correspondence@equalityhumanrights.com**.

© 2017 Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

Cyhoeddwyd Tachwedd 2017

Delwedd clawr blaen: Shutterstock.com/Rawpixel.com

Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol | Equality and Human Rights Commission

Gallwch lawrlwytho'r cyhoeddiad hwn o

www.equalityhumanrights.com

© 2017 Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol
Cyhoeddwyd: Tachwedd 2017

---

Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol | Equality and Human Rights Commission